Rhwydwaith CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES Network

# Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i: Swyddfa Gartref- Ocsid Nitraidd: Defnyddiau Cyfreithiol a Rheolyddion Priodol

Yn cau 27 Mehefin 2023
Ymateb a gyflwynwyd drwy'r arolwg ar-lein.

Cwestiynau:
(Sylwer nad oedd cwestiynau cyn 59 yn berthnasol)

## Effaith a Defnydd Cyfreithlon

[dylid cyfeirio pob ymatebydd yma ar ôl y cwestiwn olaf yn yr adran sy’n berthnasol iddo ef/hi]

**59. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn, mae ‘defnydd cyfreithlon’ yn cyfeirio at ddefnyddio ocsid nitrus yn adloniadol lle nad yw hynny’n cael ei wneud am ei effaith seicoweithredol. Beth yw eich barn chi am y diffiniad hwn? Rhowch unrhyw sylwadau neu ddiwygiadau arfaethedig yn y blwch isod. [Sylw]**

Rydym yn cytuno mewn egwyddor gyda’r diffiniad, sy’n cynnwys ei effaith seicoweithredol, ond oherwydd mai nad yr ymennydd y mae’n effeithio’n unig, gall effeithio’r asgwrn cefn a’r system nerfol hefyd, gan gynnwys terfynau nerfol, efallai bydd angen ehangu ar hyn. Mae’r system nerfol, sy’n cynnwys system nerfol ganolog (yr ymennydd a llinyn yr asgwrn cefn) a’r system nerfol berifferol (gan gynnwys terfynau nerfol) yn cael ei ystyried yn eang i gael ei effeithio gan ocsid nitraidd, ond gyda’r ddealltwriaeth gyfredol o seicoweithredol, mae’n cael ei ystyried ar gyfer yr ymennydd yn unig.

Rydym yn awgrymu bod ystyriaeth yn cael ei rhoi ar gyfer diffiniad ‘defnydd cyfreithiol’, sy’n cyfeirio at ddefnydd ocsid nitraidd nid ar gyfer ei effaith seicoweithredol neu synhwyraidd mewn modd hamddenol.

**60. Pa effaith fyddai’r tri chynnig o ran gwerthu ocsid nitrus yn ei chael arnoch chi, eich sefydliad, neu eich busnes? [Cwblhewch y tabl]**

Gan ddefnyddio’r tabl isod, ticiwch un blwch ar gyfer pob cynnig (1, 2, a 3).

| Effaith | Cynnig 1 | Cynnig 2 | Cynnig 3 |
|---|---|---|---|
| Effaith uchel (colli refeniw sylweddol, (mwy na 30%) a /neu faich gweinydd | | | |
| Effaith ganolig (colli rhywfaint o refeni (10-30%) a/neu rywfaint o faich gweinyddol ychwanegol) | | | |
| Effaith isel (colli ychydig o refeniw (lla na 10%) a/neu ychydig o faich gweinyddol ychwanegol) | | | |
| Dim Effaith | √ | √ | √ |
| Effaith yn Anhysbys | | | |

**61. Oes gennych chi unrhyw bryderon eraill am effaith y cynigion hyn arnoch chi, eich sefydliad neu eich busnes? [Sylw]**

**a. Cynnig 1**

Cynnig un fyddai'r anoddaf neu'r mwyaf amhosib i'w reoli. Os bydd unrhyw unigolyn sydd ag ocsid nitraidd at y dibenion a nodir, yna gall fod yn gymwys i bob unigolyn sy'n berchen ar ganiau o hufen chwistrell neu bwmp beic sy'n defnyddio ocsid nitraidd i enchwythu teiars, yn benodol oherwydd ei fod yn cael ei argymell i'r sawl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau beicio mynydd.

Fel partneriaid sy'n cymryd rhan mewn diogelwch cymunedol, rydym yn gweld effaith o gamddefnyddio ocsid nitraidd, ac rydym yn awyddus i beidio i wneud pobl yn droseddwyr am fod ganddynt reswm da am gael ocsid nitraidd yn eu meddiant.

Rydym hefyd yn meddwl y byddai'r dewis hwn yn ddwys ar adnoddau, ac rydym yn pryderu am adnoddau i reoli'r niferoedd sydd angen trwyddedau, a monitro safonau parhaus.

**b. Cynnig 2**

Nid ydym yn meddwl mai'r cynnig hwn fyddai'r un mwyaf llwyddiannus, er ei fod angen y lleiaf o adnoddau ar gyfer ei weithredu, byddai'n caniatáu symudiad rhydd o ocsid nitraidd, ac yn dibynnu ar y sawl sy'n ei gael yn am resymau cyfreithiol drwy ddeddfwriaeth sy'n gofyn am drwydded. Nid yw'n glir sut fyddai'r busnesau a'r unigolion hyn yn nodi eu hunain, a lle fyddai'r cyfrifoldeb yn disgyn os yw ocsid nitraidd yn cael ei ddarparu, ond wedyn yn cael ei ddefnyddio at ddibenion anghyfreithlon, ac yn cael ei gyflenwi fel sylwedd i'w gamddefnyddio.

Rydym yn pryderu y gallai adael bwlch i gangiau trosedd cyfundrefnol ac unigolion i gamfanteisio, er enghraifft gan ddefnyddio siop (drwy gamfanteisio neu berchnogaeth) sy'n gwerthu beics ac ategolion lle gall ocsid nitraidd gael defnydd cyfreithiol dan ddeddfwriaeth i gael ocsid nitraidd sydd yna'n cael ei symud i'r system cyflenwad cyffuriau.

**c. Cynnig 3**

Byddai'r cynnig hwn yn ymddangos i fod y mwyaf synhwyrol a chost effeithiol, a fyddai'n caniatáu ar gyfer meddiant i'w ddefnyddio'n bersonol at ddibenion cyfreithiol i beidio gofyn am drwydded. Tra byddai busnesau neu unigolion sy'n mewnforio, allforio, cynhyrchu neu'n cyflenwi angen trwydded. Byddai hyn yn ymddangos yn agosach at sut mae alcohol a thybaco'n cael ei reoli drwy'r gadwyn gyflenwi.

Byddai'n ymddangos i gydbwyso'r materion yn y ddau gynnig arall, gyda gangiau trosedd cyfundrefnol a'r unigolion yn gweithio i osgoi'r system, byddai'n rhaid rhoi mwy o rwystrau ar waith a chyd-fynd gyda'r rheoliadau, a'r prosesau arolygu sydd eisoes ar waith. Byddwn yn gobeithio y byddai'r ymateb hwn yn gwneud ocsid nitraidd yn llai agored i'w feddiannu, gan arwain at lai o ddefnydd.

Y pryder gyda'r cynnig yw adnoddau ar gyfer y prosesau ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer cynnal y trwyddedau, gwirio bod busnesau ac unigolion yn gweithredu o fewn y gyfraith ac ar gyfer hyfforddiant a sesiynau ymwybyddiaeth ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer arolygwyr, a busnesau ac unigolion sydd angen trwyddedau.

# Rheoli marcio a labelu cynwysyddion

**62. Ydych chi'n labelu cynhyrchion ocsid nitrus rydych chi'n eu gweithgynhyrchu, eu gwerthu neu'n eu trin ar hyn o bryd? [Dewiswch un]**

a) Ydw
**b) Nac ydw**

**63. Petai gofynion newydd yn cael eu cyflwyno ar gyfer labelu ocsid nitrus, pa effaith fyddai'r rhain yn ei chael arnoch chi neu eich sefydliad? [Dewiswch un, a rhowch sylwadau]**

a) Effaith uchel
b) Effaith ganolig
**c) Effaith isel**
d) Dim Effaith
e) Effaith yn Anhysbys

Yr effaith ar aelodau Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru byddai gwirio'n brydlon bod yr ocsid nitraidd wedi'i labelu'n gywir. Mae ein haelodau'n cynnwys Awdurdodau Lleol, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân, a chydweithwyr Iechyd y gallwn i gyd ddod i gyswllt gyda nhw ac angen gwirio bod y labeli cywir yn cael eu defnyddio, ac yn achos awdurdodau lleol a'r heddlu, tynnu neu weithredu i'w cywiro, a all arwain at elyniaeth a phrosesa sy'n cymryd llawer o amser ac adnoddau.

Byddwn o blaid rhaglen ymwybyddiaeth ataliol ar gyfer y sawl sydd wedi ceisio, neu'n meddwl ceisio ocsid nitraidd, drwy addysg (ysgolion a cholegau) a grwpiau ieuenctid a chymunedol. Byddai'r rhaglen yn cynnwys niwed personol neu niwed posib defnyddio ocsid nitraidd, ond hefyd yr effaith amgylcheddol sy'n cyfrannu at allyriadau nwyon tŷ gwydr, a newid hinsawdd o ganlyniad i hynny.

Byddwn yn argymell y byddai'n briodol, yn dibynnu ar benderfyniad terfynol y cynigion, dylid rhoi ystyriaeth i osod cyfyngiad oedran ar werthiant ocsid nitraidd, fel alcohol, sigaréts, tân gwyllt a chyllyll ar fannau gwerthu a dosbarthwyr eraill.

Wrth gefnogi'r newidiadau hyn, byddwn yn awgrymu gweithio gyda chymunedau drwy ddarparu biniau casglu gan nad oes modd ailgylchu'r canister er nid drwy gynlluniau ailgylchu domestig. Drwy gasglu'r canister, mae'n darparu cyfle i leihau gwastraff a sbwriel, neu risg o ddigwyddiad o ganister llawn neu rhannol lawn yn cael ei daflu ond gyda labeli cywir, byddai'n caniatáu ar gyfer gwiriadau systematig i weld o le mae'r canister yn dod, fel y gellir gwirio torri amodau'r drwydded.